

Fforwm Mynediad Lleol Sir Gaerfyrddin

2016

Adroddiad Blynyddol

Mawrth 2017

Rhagair i Adroddiad Blynyddol 2016

Mae 2016 wedi bod yn flwyddyn brysur i'r Fforwm gyda 4 cyfarfod, nifer sylweddol o eitemau wedi'u trafod, 2 gyflwyniad wedi'u derbyn a 3 aelod newydd wedi'u recriwtio.

Teimlaf fod y Fforwm wedi parhau i wneud cynnydd, gydag ymwybyddiaeth gynyddol o'r hyn y mae'r Fforwm yn ei wneud, a mwy o fewnbwn gan amrywiol adrannau yng Nghyngor Sir Gaerfyrddin. Fodd bynnag, mae'n dal i fod yn amlwg bod angen gwneud mwy i sicrhau bod y Fforwm yn cael gwybod yn rheolaidd am bob prosiect sy'n effeithio ar fynediad i gefn gwlad.

Mae'r Canllawiau ar gyfer Awdurdodau Lleol ynghylch Hawliau Tramwy Cyhoeddus (Hydref 2016) a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru wedi bod yn ddogfen ddefnyddiol gan ei bod yn nodi'n fanwl yr hyn y mae rhaid i Awdurdodau Lleol ei wneud pan ddaw'n fater o reoli Hawliau Tramwy Cyhoeddus a rhyngweithio â'r Fforwm. Hoffwn weld Cyngor Sir Gaerfyrddin yn mabwysiadu'r ddogfen hon a'i chysylltu â'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy newydd a gaiff ei lunio ar hyn o bryd.

Nodwyd hefyd bod nifer y materion sydd heb eu datrys (cynnal a chadw a materion cyfreithiol) y rhoddwyd gwybod amdanynt yn Sir Gaerfyrddin wedi bod yn cynyddu, fel y cadarnhawyd gan yr adroddiadau a ddangoswyd yn Atodiad 1. Mae'r adroddiadau hyn, a ddechreuodd gael eu llunio ym mis Mai 2016, yn dangos bod cynnydd o 8% wedi bod mewn Materion Cynnal a Chadw sydd heb eu datrys a bod cynnydd o 11% wedi bod mewn Materion Cyfreithiol sydd heb eu datrys dros yr 8 mis hyd at 13 Ionawr 2017. Mae'r Fforwm Mynediad Lleol yn pryderu fod y problemau hyn yn cynyddu ac mae'n annog yr Awdurdod Lleol i weithio tuag at leihau nifer y materion sydd heb eu datrys.

Bydd 2017 yn flwyddyn brysur arall i'r Fforwm gan y bydd angen cryn dipyn o fewnbwn ar y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy newydd ar gyfer Sir Gaerfyrddin ac mae rhai prosiectau arwyddocaol ar y gweill gan gynnwys Llwybr Beicio Dyffryn Tywi. Mae'r Fforwm yn gobeithio cael mwy o fanylion amdanynt dros y misoedd sydd i ddod.

Carwn ddiolch i Jonathan Tudor a Caroline Ferguson a'u tîm am roi o'u hamser ac am eu cyngor i'r fforwm fel ysgrifennydd ac ymgynghorwyr dros y flwyddyn ddiwethaf.

Yn ogystal carwn ddiolch i holl aelodau'r fforwm am eu hamser ac am yr arbenigedd y maent yn ei gyfrannu i'r Fforwm. Fel y dangosir yn Atodiad 4 mae llawer o aelodau'r Fforwm hefyd yn aelodau o sefydliadau / pwyllgorau eraill a'r gobaith yw y bydd hyn o gymorth i fynd â gwaith y Fforwm ymlaen at gynulleidfa ehangach.

Mark Hadley
Cadeirydd
Fforwm Mynediad Lleol Sir Gaerfyrddin

Rhagarweiniad

Sefydlwyd Fforwm Mynediad Lleol Sir Gaerfyrddin ym mis Medi 2002. Mae'n gyfrifol am Sir Gaerfyrddin, ac eithrio'r ardal sy'n rhan o Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog; Fforwm Mynediad Lleol Ardal y Gorllewin sy'n gyfrifol am yr ardal honno fel y dangosir yn Atodiad 3. Roedd gan yr Awdurdod Lleol ddyletswydd statudol i sefydlu'r Fforwm yn ôl gofynion Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000.

Swyddogaeth statudol y Fforwm yw cynghori'r awdurdod, Cyfoeth Naturiol Cymru ac eraill am wella mynediad y cyhoedd i dir yn yr ardal at ddibenion hamddena yn yr awyr agored a mwynhau'r ardal, gan barchu anghenion rheoli tir a harddwch naturiol y wlad.

Bellach mae cylch gwaith y Fforwm wedi cael ei ehangu i roi cyngor nid yn unig i'r awdurdod penodi (Cyngor Sir Gaerfyrddin yn ein hachos ni), yr Awdurdod Prifffyrdd a chyrrff eraill fel y nodir gan y rheoliadau, ond hefyd i roi cyngor ar Gynlluniau Gwella Hawliau Tramwy Cyhoeddus, Wardeiniaeth, llunio is-ddeddfau ac eithrio a chyfyngu hir dymor ar fynediad.

Dylid ceisio barn y Fforwm ynghylch unrhyw reoliadau newydd o dan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000, rheoli hawliau mynediad newydd, y blaenoriaethau strategol ar gyfer hawliau tramwy cyhoeddus a rhwydweithiau beicio a phob math arall o hamddena yn yr awyr agored.

Mae aelodau'r Fforwm wedi ymrwymo i fynychu cyfarfodydd o grwpiau allanol os bydd hynny'n briodol ac fe'u hanogir i wneud popeth o fewn eu gallu i ymwneud â'r cyhoedd.

Mae holl gyfarfodydd y Fforwm yn agored i'r cyhoedd. Mae cofnodion cyfarfodydd y Fforwm a manylion eraill ynghylch y Fforwm ar gael ar wefan Cyngor Sir Gaerfyrddin:

<http://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/preswylwyr/hamdden-a-gweithgareddau/hawliau-tramwy-cyhoeddus/fforwm-mynediad-lleol/#.V2kLVdL2b1I>

Mae rheoliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau penodi baratoi adroddiad blynyddol, cyn gynted â phosib ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol, ynghylch pob Fforwm y maent yn gyfrifol amdano. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys cyfarwyddyd Cyfoeth Naturiol Cymru ynghylch llunio Adroddiadau Blynyddol Fforymau Mynediad Lleol a chynnwys yr adroddiadau hynny.

Bydd amryw bwrpas i'r adroddiad blynyddol, sef cyflwyno:

- a) Crynodeb o waith y flwyddyn flaenorol. Bydd cofnodion cyfarfodydd unigol a dogfennau eraill a luniwyd yn rhoi mwy o fanylion ond bydd yr adroddiad blynyddol yn crynhoi gwaith y Fforwm.
- b) Cynllun gwaith am y flwyddyn sydd i ddod. Hwn fydd y cynllun y cytunodd y Fforwm a'r awdurdod penodi arno, yn unol â rheoliad

16(2)(b). Derbynnir y gall blaenoriaethau sy'n newid a phwysau gwaith arall olygu na ellir cydymffurfio â'r cynllun yn llawn.

- c) Dogfen 'gyhoeddusrwydd'. Yn ôl statud mae'n rhaid i'r adroddiad blynyddol fod ar gael i'r cyhoedd ei ddarllen ac mae'n rhaid iddo fod ar gael i'r cyhoedd ei brynu.

Adolygu'r Flwyddyn

Adroddiad ar y Swyddogaeth Statudol

Mae'r adran hon o'r adroddiad blynyddol yn canolbwyntio ar sut y cyflawnodd y Fforwm ei swyddogaeth statudol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2016 (cynhaliwyd cyfarfod mis Rhagfyr ar 19 Ionawr 2017). Yn ôl y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000, ei swyddogaeth yw cynghori:

- a) Yr awdurdod penodi.
- b) Unrhyw gorff sy'n cyflawni swyddogaethau dan Ran I mewn perthynas â thir yn yr ardal honno.
- c) Os yw'r awdurdod penodi yn Awdurdod Parc Cenedlaethol, yr awdurdod priffyrdd lleol ynghylch unrhyw ddarn o'r tir hwnnw, a
- d) Chyrff eraill y gellir eu pennu.

Ynghylch gwella mynediad cyhoeddus i dir yn yr ardal honno at ddibenion hamddena yn yr awyr agored a mwynhau'r ardal.

Bydd y cyrff a enwir yn (a) i (d) (uchod) yn rhoi sylw, wrth iddynt gyflawni'u swyddogaethau, i unrhyw gyngor perthnasol a roddir iddynt gan Fforwm Mynediad Lleol dan yr isadran hon neu unrhyw ddarpariaeth arall dan y Ddeddf hon.

Cynhaliodd y Fforwm 4 cyfarfod yn y cyfnod rhwng 1 Ionawr 2016 a 31 Rhagfyr 2016 (gohiriwyd cyfarfod mis Rhagfyr tan 19 Ionawr 2017). Gellir crynhoi'r cyfarfodydd hyn fel a ganlyn:

- 1) 18 Chwefror 2016 – Canolfan Hamdden Caerfyrddin
- 2) 12 Mai 2016 – Canolfan Hamdden Caerfyrddin
- 3) 22 Medi 2016 – Canolfan Hamdden Caerfyrddin
- 4) 8 Rhagfyr 2016 (Gohiriwyd tan 19 Ionawr) - Canolfan Hamdden Caerfyrddin

**Materion a Ystyriwyd gan y Fforwm rhwng 1 Ionawr - 31 Rhagfyr 2016
(19 Ionawr)**

1. Pwnc a drafodwyd: **Aelodau Newydd / Ymddiswyddiadau**

Dyddiad(au) Trafod: 18 Chwefror 2016, 12 Mai 2016, 22 Medi 2016, 19 Ionawr 2017

Crynodeb: Cytunwyd ar dderbyn Richard Leggett yn aelod newydd yng nghyfarfod mis Chwefror. Rhoddodd Becky Chunising y gorau i wasanaethu ar y Fforwm ar 9 Mawrth 2016. Cytunwyd ar dderbyn John Cook a Gerald Brown yn aelodau newydd yng nghyfarfod mis Medi.
2. Pwnc Trafod: **Gwasanaeth Archifau Sir Gaerfyrddin**

Dyddiad(au) Trafod: 18 Chwefror 2016

Crynodeb: Roedd yr eitem a drafodwyd yn cadarnhau fod Bwrdd Gweithredol Cyngor Sir Gaerfyrddin wedi cytuno bod yr archifau yn aros yn Sir Gaerfyrddin. Cadarnhaodd y Fforwm fod yr archif yn hanfodol ar gyfer ceisiadau i ychwanegu hawliau tramwy at y map diffiniol o dan adran 53 o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000.
3. Pwnc Trafod: **Gorchmynion Rheoli Cŵn**

Dyddiad(au) Trafod: 18 Chwefror 2016, 12 Mai 2016, 22 Medi 2016

Crynodeb: Cadarnhaodd y Fforwm ei fod yn cefnogi'r cynigion a wnaed yng nghyfarfod mis Chwefror i reoli cŵn mewn ardaloedd penodol. Rhoddwyd copïau o'r ffeithlenni yn ymwneud â'r gorchmynion i'r aelodau yng nghyfarfod mis Mai. Dosbarthwyd copïau terfynol o'r taflenni yng nghyfarfod mis Medi.
4. Pwnc Trafod: **Ymgynghoriad Targededig Cyfoeth Naturiol Cymru ynghylch Cyfarwyddyd Drafft ar gyfer Adolygu'r Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy**

Dyddiad(au) Trafod: 18 Chwefror 2016

Crynodeb: Rhoddodd Geoffrey Williams wybod i'r Fforwm y byddai copi o ymateb y Cerddwyr ynglŷn â'r mater hwn yn dod i law. Roedd y Fforwm hefyd wedi cyflwyno ymateb i

Cyfoeth Naturiol Cymru yn mynegi pryderon ynghylch y cyllid ar gyfer gweithredu Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy newydd.

5. Pwnc Trafod: **Fferm Wynt Fforest Brechfa**
Dyddiad(au) Trafod: 18 Chwefror 2016, 12 Mai 2016, 22 Medi 2016, 19 Ionawr 2017
- Crynodeb: Roedd y Fforwm wedi derbyn cadarnhad oddi wrth RWE y byddent yn cwrdd pe bai angen. Yng nghyfarfod mis Mai rhoddodd Jillie Gardiner y wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â cham cysylltu'r prosiect. Yng nghyfarfod mis Medi cadarnhawyd y byddai Bethan Edwards, Rheolwr Prosiect Datblygu Fferm Wynt Brechfa yn dod i'r cyfarfod nesaf. Roedd yr aelodau yn dal i fynegi pryderon ynghylch y diffyg ymgynghori ynglŷn â'r prosiect. Trafodwyd hefyd y dylai aelod o'r Fforwm ymuno â fforwm cymunedol NPower. Rhoddodd Bethan Edwards a Martin Kelly gyflwyniad yng nghyfarfod mis Ionawr ynghylch rheoli hawliau tramwy yn ystod cyfnod adeiladu'r prosiect. Yng nghyfarfod mis Ionawr gofynnodd aelodau'r Fforwm a fyddai modd i'r pryderon ynghylch y diffyg ymgynghori ynglŷn â'r prosiect hwn gael eu trosglwyddo i'r Prif Weithredwr. Yn dilyn hyn anfonwyd llythyr at y Prif Weithredwr a threfnwyd cyfarfod i'w gynnal ym mis Ebrill gyda'r penaeithiad gwasanaeth perthnasol ar gyfer pob adran ble bydd y mater hwn yn cael ei drafod.
6. Pwnc Trafod: **Llwybr Caniataol Uwch Glastir**
Dyddiad(au) Trafod: 18 Chwefror 2016
- Crynodeb: Trafododd y Fforwm Llwybr Glastir yng Nghil-y-cwm.
7. Pwnc Trafod: **Teithio Llesol**
Dyddiad(au) Trafod: 18 Chwefror 2016, 12 Mai 2016, 22 Medi 2016, 19 Ionawr 2017
- Crynodeb: Yng nghyfarfod mis Chwefror gofynnodd y Fforwm am gadarnhad oddi wrth Cyfoeth Naturiol Cymru ynglŷn ag i ba raddau y dylai awdurdodau lleol ymgynghori â'r fforwm gyda golwg ar lwybrau teithio llesol. (Nid

oes ymateb wedi dod i law.) Yng nghyfarfod mis Mai roedd y Fforwm yn dal i fod heb dderbyn llawer o wybodaeth a gofynnwyd i Simon Charles gysylltu â nhw ynglŷn â mapio'r llwybrau Teithio Llesol. Ar gyfer cyfarfod mis Medi roedd Simon Charles wedi cadarnhau nad oedd y map rhwydwaith integredig wedi'i gwblhau ac y byddai'n barod erbyn cyfarfod mis Rhagfyr. Cadarnhawyd yng nghyfarfod mis Ionawr y byddai Simon Charles yn bresennol yng nghyfarfod mis Chwefror. Yng nghyfarfod mis Ionawr gofynnodd aelodau'r Fforwm a fyddai modd i'r pryderon yn ymwneud â'r diffyg ymgynghori ynghylch y prosiect llwybr beicio Caerfyrddin i Landeilo gael eu trosglwyddo i'r Prif Weithredwr. Yn dilyn hyn anfonwyd llythyr at y Prif Weithredwr a threfnwyd cyfarfod i'w gynnal ym mis Ebrill gyda'r penaethiaid gwasanaeth perthnasol ar gyfer pob adran ble bydd y mater hwn yn cael ei drafod.

8. Pwnc Trafod:
Dyddiad(au) Trafod:

Proses Gorchymyn Dargyfeirio
18 Chwefror 2016

Crynodeb:

Esboniwyd y broses o wneud gorchmynion dargyfeirio ynghylch hawliau tramwy i'r Fforwm.

9. Pwnc Trafod:
Dyddiad(au) Trafod:

Rhaglen Waith Gwelliannau Grant
18 Chwefror 2016, 12 Mai 2016, 22 Medi 2016

Crynodeb:

Cyflwynwyd adroddiad ynghylch y Rhaglen Waith Gwelliannau Grant yng nghyfarfod mis Chwefror. Trafodwyd adroddiadau pellach yn ystod cyfarfod mis Mai. Yng nghyfarfod mis Medi cadarnhawyd bod Cyngor Sir Caerfyrddin wedi gwario £54,000 (Cynllun Gwella Hawliau Tramwy) a £70,000 (Partneriaeth Gweithio ar y Cyd) ym mlwyddyn ariannol 2015/16. Cadarnhawyd y cyllid ar gyfer y flwyddyn ariannol 2016/17 hefyd, a oedd yn dod i gyfanswm o £82,000. Cadarnhawyd hefyd bod niferoedd y Parcmynd wedi lleihau a'i bod yn debygol y byddai cais yn cael ei

wneud i gynghorau cymuned ar iddynt
gynnal a chadw rhai llwybrau yn y dyfodol.

10. Pwnc Trafod: **Celfi Hawliau Tramwy Cyhoeddus
(Gatiau / Sticlau, ac ati) – Cyfrifoldeb**

Dyddiad(au) Trafod: 18 Chwefror 2016

Crynodeb: Cafwyd trafodaeth ynglŷn â phwy sy'n
gyfrifol am gynnal a chadw celfi ar hawliau
tramwy cyhoeddus.

11. Pwnc Trafod: **Adroddiad Blynyddol Fforwm Mynediad
Lleol**

Dyddiad(au) Trafod: 18 Chwefror 2016, 12 Mai 2016, 22 Medi
2016, 19 Ionawr 2017

Crynodeb: Cytunwyd bod yr Adroddiad Blynyddol yn
ddogfen ddefnyddiol er mwyn helpu i godi
proffil y Fforwm.

12. Pwnc Trafod: **Achos Cyfreithiol – Herrick v Kidner a
Chyngor Sir Gwlad yr Haf 2010**

Dyddiad(au) Trafod: 18 Chwefror 2016

Crynodeb: Roedd yr achos yn ymwneud â defnyddio
hawl tramwy i'w led llawn ac awgrymwyd ei
fod yn gosod cynsail ar gyfer rheoli
problemau tebyg.

13. Pwnc Trafod: **Datblygu Cynllun Cyrchfan Twristiaeth**

Dyddiad(au) Trafod: 18 Chwefror 2016

Crynodeb: Dywedodd Jillie Gardiner ei bod hi wedi bod
mewn cyfarfod gyda llysgenhadon
twristiaeth a rhoddodd wybod y bydd y
Fforwm yn cael ei chynnwys yn y broses.

14. Pwnc Trafod: **Llwybr Beicio Sustrans ym Mhorth
Tywyn**

Dyddiad(au) Trafod: 18 Chwefror 2016

Crynodeb: Soniodd Jillie Gardiner am y prosiect gan
ddweud fod rhagor o wybodaeth i ddilyn yn
y cyfarfod nesaf.

15. Pwnc Trafod: **Cynrychiolwyr Cyfoeth Naturiol Cymru**

Dyddiad(au) Trafod: 18 Chwefror 2016

Crynodeb: Yng nghyfarfod mis Chwefror cyflwynwyd y
Fforwm i Glyn Lloyd-Jones a fyddai'n

cynrychioli Cyfoeth Naturiol Cymru yng nghyfarfodydd y Fforwm yn y dyfodol.

16. Pwnc Trafod: **Llwybr Beicio o'r Fenni i Landeilo**
Dyddiad(au) Trafod: 18 Chwefror 2016
- Crynodeb: Esboniodd Mark Hadley ei fod wedi bod mewn cyfarfod ynglŷn â'r prosiect hwn.
17. Pwnc Trafod: **Cynllunio - Prosiectau Datblygu o Arwyddocâd Cenedlaethol**
- Dyddiad(au) Trafod: 12 Mai 2016, 22 Medi 2016
- Crynodeb: Ym mis Mai daeth cyflwyniad i law'r Fforwm oddi wrth Richard Jones (Swyddog Rheoli Datblygu) o Gyngor Sir Caerfyrddin ynghylch y broses gynllunio yn ymwneud â phrosiectau o Arwyddocâd Cenedlaethol ac yn benodol ffermydd gwynt Fforest Brechfa. Awgrymodd y Fforwm ym mis Medi fod yr holl geisiadau cynllunio a anfonir at y tîm hawliau tramwy yn cael eu hanfon ymlaen at aelodau'r Fforwm drwy law'r Cadeirydd er mwyn iddynt allu cynnig sylwadau arnynt. Cytunwyd ar hyn yng nghyfarfod mis Ionawr.
18. Pwnc Trafod: **Cyllido'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy**
Dyddiad(au) Trafod: 12 Mai 2016
- Crynodeb: Cadarnhaodd Caroline Ferguson fod Cyngor Sir Caerfyrddin wedi cael llythyr ynglŷn â chyllido'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy a oedd yn cadarnhau £54,607 o gyllid ar gyfer y flwyddyn ariannol 2016 / 17.
19. Pwnc Trafod: **Cytundeb Dirprwyo Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog**
Dyddiad(au) Trafod: 12 Mai 2016, 22 Medi 2016, 19 Ionawr 2017
- Crynodeb: Yng nghyfarfod mis Mai amlinellodd Caroline Ferguson y sefyllfa ynglŷn â'r posibilrwydd o newid y trefniant dirprwyo presennol gyda Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Yng nghyfarfod mis Medi cadarnhawyd bod y trafodaethau'n parhau. Yng nghyfarfod mis Ionawr cadarnhawyd bod y trafodaethau'n parhau a bod angen i gytundeb fod ar waith cyn dechrau'r flwyddyn ariannol nesaf. Mynegwyd

pryderon gan yr aelodau mewn perthynas â Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn cyflawni eu dyletswyddau a sut y gallai'r cytundeb newydd hwn effeithio ar y Fforwm. Yn dilyn hyn anfonwyd llythyr at y Prif Weithredwr a threfnwyd cyfarfod i'w gynnal ym mis Ebrill gyda'r penaethiaid gwasanaeth perthnasol ar gyfer pob adran ble bydd y mater hwn yn cael ei drafod.

20. Pwnc Trafod: **Tîm Mynediad i Gefn Gwlad Cyngor Sir Caerfyrddin**
Dyddiad(au) Trafod: 12 Mai 2016, 22 Medi 2016, 19 Ionawr 2017
Crynodeb: Rhoddwyd y wybodaeth ddiweddaraf ym mis Mai ynghylch strwythur yr uned Mynediad i Gefn Gwlad a gofynnodd yr aelodau a fyddai modd iddynt gael y wybodaeth ddiweddaraf gyda golwg ar swyddi gwag. Yng nghyfarfod mis Medi amlinellodd Alan Warner y ffaith ei fod yn ceisio cael cymeradwyaeth i ddefnyddio contractwyr i dorri'r borfa'n flynyddol neu i drosglwyddo'r gwaith cynnal a chadw yn ôl i'r Cynghorau Cymuned. Byddai hyn yn rhyddhau amser y Parcmyn i wneud gwaith cyfalaf, gwneud mân waith gorfodi a gwaith gwella celfi. Cadarnhawyd yng nghyfarfod mis Medi nad oedd rhagor o wybodaeth wedi dod gyda golwg ar strwythur y tîm cyfreithiol. Yng nghyfarfod mis Ionawr rhoddwyd gwybod i'r Fforwm fod y strwythur newydd ar gyfer y tîm cynnal a chadw ar waith a bod cynorthwydd rhan-amser newydd yn dechrau yn y tîm cyfreithiol. Gofynnodd y Fforwm a fyddai modd i'r cadeirydd gysylltu â'r Prif Weithredwr gan amlinellu'r pryderon ynghylch recriwtio ac effaith hyn ar y gwasanaeth. Yn dilyn y cais hwn anfonwyd llythyr at y Prif Weithredwr a threfnwyd cyfarfod ym mis Ebrill gyda'r penaethiaid gwasanaeth perthnasol ar gyfer pob adran.
21. Pwnc Trafod: **Map Diffiniol / Gorchmynion Cyfreithiol 2015/16**
Dyddiad(au) Trafod: 12 Mai 2016, 22 Medi 2016, 19 Ionawr 2017
Crynodeb: Yng nghyfarfod mis Mai cyflwynwyd tabl o'r gorchmynion cyfreithiol a broseswyd a'r rhai sydd heb eu datrys; nodwyd bod nifer y

gorchmynion sydd heb eu datrys yn cynyddu. Rhoddwyd adroddiad yng nghyfarfod mis Medi a oedd yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf. Roedd yr adroddiad a ddarparwyd yng nghyfarfod mis Ionawr yn dangos fod y Gorchmynion Llwybrau Cyhoeddus yn cael eu cwblhau'n gyson ond nad oedd y Gorchmynion Addasu Mapiau Diffiniol wedi symud ymlaen.

22. Pwnc Trafod: **Y Papur Gwyrdd ar Wella Cyfleoedd i gael Mynediad i'r Awyr Agored - Crynodeb o'r Ymateb a Dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru**

Dyddiad(au) Trafod: 12 Mai 2016, 22 Medi 2016

Crynodeb: Trafodwyd y materion a oedd yn ymwneud â'r papur gwyrdd.

23. Pwnc Trafod: **Cynnig Llwybr Cerdded Rheilffordd Calon Cymru**

Dyddiad(au) Trafod: 12 Mai 2016, 19 Ionawr 2017

Crynodeb: Yng nghyfarfod mis Mai rhoddwyd amlinelliad o'r prosiect i aelodau'r Fforwm a dosbarthwyd rhai taflenni. Yng nghyfarfod mis Ionawr cadarnhaodd Caroline Ferguson ei bod hi wedi cwrdd ag aelodau o dîm y prosiect a bod Cyngor Sir Gaerfyrddin yn gweithio gyda Chymdeithas Teithwyr Rheilffordd Calon Cymru (HOWLTA) ynghylch y llwybrau yn Sir Gaerfyrddin.

24. Pwnc Trafod: **Pontydd ar Hawliau Tramwy**
Dyddiad(au) Trafod: 12 Mai 2016, 22 Medi 2016, 19 Ionawr 2017

Crynodeb: Cafwyd trafodaeth yng nghyfarfod mis Mai ynghylch nifer y pontydd sydd angen eu hatgyweirio. Yng nghyfarfod mis Medi cadarnhaodd Alan Warner y byddai £450,000 ar gael i atgyweirio pontydd. Cadarnhawyd yng nghyfarfod mis Ionawr y byddai 9 pont yn cael eu hatgyweirio / gosod pontydd newydd yn eu lle yn y flwyddyn ariannol nesaf. Awgrymwyd y

dylid hyrwyddo'r llwybrau hyn unwaith y bydd y gwaith wedi'i gwblhau.

25. Pwnc Trafod: **Adolygiad o'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy**
Dyddiad(au) Trafod: 22 Medi 2016, Ionawr 2017
Crynodeb: Rhoddwyd gwybod i'r Fforwm yng nghyfarfod mis Medi y byddai ymgynghorwyr yn cael eu defnyddio i ymgymryd â'r adolygiad ac y byddai'r Fforwm yn rhan o'r broses ymgynghori. Yng nghyfarfod mis Ionawr rhoddwyd gwybod i'r Fforwm bod Capita wedi'u penodi fel ymgynghorwyr i ymgymryd â'r adolygiad a bod pethau wedi symud yn eu blaenau'n araf. Gofynnodd aelodau'r Fforwm a fyddai modd i'r Cadeirydd gysylltu â Phrif Weithredwr Cyngor Sir Gaerfyrddin i amlinellu pryderon y Fforwm ynglŷn â'r posibilrwydd na fyddai'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy yn cael ei gwblhau mewn pryd. Yn dilyn y cais hwn anfonwyd llythyr at y Prif Weithredwr a threfnwyd cyfarfod ym mis Ebrill gyda'r penaethiaid gwasanaeth perthnasol pryd y bydd y mater hwn yn cael ei drafod.
Trafodwyd hefyd y ffaith ei bod yn debygol y byddai Capita yn bresennol yng nghyfarfod nesaf y Fforwm.
26. Pwnc Trafod: **Adroddiad ar Faterion yn ymwneud â'r Rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus**
Dyddiad(au) Trafod: 22 Medi 2016, 19 Ionawr 2017
Crynodeb: Yng nghyfarfod mis Medi dosbarthwyd adroddiadau ynghylch Materion Cynnal a Chadw a Materion Cyfreithiol i'r Fforwm. Gofynnwyd a fyddai modd cynhyrchu'r rhain ar gyfer pob un o gyfarfodydd y Fforwm. Cytunwyd fod y materion sydd heb eu datrys fel pe baent yn cynyddu ac y byddai hyn yn cael ei fonitro yng nghyfarfodydd y dyfodol. Cytunwyd yng nghyfarfod mis Ionawr fod yr adroddiadau'n parhau i ddangos cynnydd yn nifer y materion sydd heb eu datrys ac efallai bod hyn yn gysylltiedig â nifer y swyddi gwag. Gofynnodd y Fforwm a fyddai modd i'r Cadeirydd gysylltu â'r Prif Weithredwr er

mwyn amlinellu'r pryderon hyn. Yn dilyn y cais hwn anfonwyd llythyr at y Prif Weithredwr a threfnwyd cyfarfod ym mis Ebrill gyda'r penaethiaid gwasanaeth perthnasol pryd y bydd y mater hwn yn cael ei drafod.

27. Pwnc Trafod:
Dyddiad(au) Trafod:

Gwirfoddolwyr
22 Medi 2016

Crynodeb:

Rhoddodd Geoffrey Williams wybod i'r Fforwm am y modd y mae Cymdeithas y Cerddwyr yn defnyddio gwirfoddolwyr a chadarnhaodd fod y gwirfoddolwyr wedi'u hyswrio gan y Gymdeithas. Gofynnodd yr aelodau a fyddai modd defnyddio'r gwirfoddolwyr i helpu i nodi pontydd sydd angen eu hatgyweirio.

28. Pwnc Trafod:
Dyddiad(au) Trafod:

Ffordd Cambria
22 Medi 2016

Crynodeb:

Rhoddodd Geoffrey Williams wybod i'r Fforwm ei fod yn Ymddiriedolwr ar Ffordd Cambria ac yn gyfrifol am fonitro'r llwybr yn Sir Gaerfyrddin a bod y cyfeirbwyntiau ar hyd y llwybr yn y broses o gael eu gwella.

29. Pwnc Trafod:
Dyddiad(au) Trafod:

Cynhadledd y Fforwm 2016
19 Ionawr 2017

Crynodeb:

Rhoddodd Geoffrey Williams / Mark Hadley ddiweddariad ynghylch Cynhadledd y Fforwm Mynediad Lleol y buont iddi.

30. Pwnc Trafod:

Ymgyrch Cerdded 3D / Themâu Croeso Cymru

Dyddiad(au) Trafod:

19 Ionawr 2017

Crynodeb:

Roedd y prosiect hwn yn gysylltiedig â thema Llywodraeth Cymru ar gyfer 2017 sef 'Chwedlau'. Roedd nifer o aelodau'r Fforwm wedi bod yn bresennol mewn cyflwyniad am Sir Gaerfyrddin a oedd yn hyrwyddo nifer o lwybrau cerdded dan y thema hon. Roedd y prosiect i fod i fynd yn fyw ym mis Ionawr a rhoddwyd gwybod i'r Fforwm y disgwyliid cael diweddariad yn fuan. Rhoddwyd gwybod i'r Fforwm mai'r thema ar gyfer 2018 fyddai'r 'Môr'.

31. Pwnc Trafod: **Arweiniad Diwygiedig Llywodraeth Cymru ar Hawliau Tramwy Cyhoeddus**
- Dyddiad(au) Trafod: 19 Ionawr 2017
- Crynodeb: Trafododd y Fforwm y ddogfen hon ac esboniwyd bod yr arweiniad yn cadarnhau'r arweiniad a'r cylchlythyrau presennol mewn un ddogfen hollgynhwysol a'i fod yn cyfeirio at ddeddfwriaeth fwy newydd megis y Ddeddf Teithio Llesol.
32. Pwnc Trafod: **Gorchmynion Rheoli Traffig ar Gilffyrdd / Ffyrdd Diddosbarth**
- Dyddiad(au) Trafod: 19 Ionawr 2017
- Crynodeb: Mynegodd Mark Hadley bryderon y byddai'n ymddangos fod Cyngor Sir Gaerfyrddin yn gweithredu Gorchmynion Rheoli Traffig dros ddatrys problemau.

Gweithgareddau eraill y Cadeirydd / yr Is-gadeirydd / y Fforwm

Rhestr o'r gweithgareddau eraill a gyflawnodd Cadeirydd / Is-gadeirydd / Aelodau eraill y Fforwm Mynediad Lleol yn unol ag amcanion y Fforwm:

Dyddiad Digwyddiad Natur y Presenoldeb Mynychwyd gan

Dyddiad	Digwyddiad	Natur y Presenoldeb	Mynychwyd gan
19/04/16	Cyfarfod Grŵp Defnyddwyr Cilffyrdd	Aelodau'r Fforwm	Mark Hadley, Karen Burch, Jane Evans, Caroline Ferguson
12/10/16	Cyfarfod Grŵp Defnyddwyr Cilffyrdd	Aelodau'r Fforwm	Mark Hadley, Karen Burch, Jane Evans, Caroline Ferguson
19/10/16	Cynhadledd y Fforwm 2016	Aelodau'r Fforwm	Mark Hadley, Geoffrey Williams, Jillie Gardiner, Caroline Ferguson
24/10/16	Cyfarfod ynghylch yr Ymgyrch Cerdded 3D	Aelodau'r Fforwm	Mark Hadley, Jillie Gardiner, Caroline Evans, Caroline Ferguson

Pwyllgorau'r Fforwm / Cyfarfodydd Eraill

Yn unol â rheoliad 13 o'r Fforymau Mynediad Lleol caniateir sefydlu pwyllgorau'r Fforwm. Yn 2016, sefydlodd y Fforwm y pwyllgorau canlynol / mynychodd y Fforwm y cyfarfodydd canlynol:

Ni fuwyd mewn unrhyw gyfarfodydd eraill yn 2016 heblaw'r rheiny a nodir uchod.

Cyflwyniadau i'r Fforwm

Rhoddwyd y cyflwyniadau canlynol gerbron y Fforwm yn 2016:

1. 12 Mai 2016 – Richard Jones (Swyddog Rheoli Datblygu) Cyngor Sir Caerfyrddin – Rhoddodd gyflwyniad ynghylch 'Cynllunio - Prosiectau Datblygu o Arwyddocâd Cenedlaethol'.
2. 19 Ionawr 2017 – Bethan Edwards (Rheolwr Prosiect Datblygu ar gyfer Fferm Wynt Brechfa) a Martin Kelly – Rhoesant gyflwyniad ynghylch

cyfnod adeiladu Fferm Wynt Brechfa a rheoli hawliau tramwy cyhoeddus yn ystod y gwaith adeiladu.

Cynllun Gwaith 2017

Yn unol â Rheoliad 16(2)(b), mae'n ofynnol bod adroddiad blynyddol y Fforwm yn cynnwys rhaglen waith y cytunwyd arni gan y Fforwm a'r awdurdod penodi ac y bydd y Fforwm yn ei gweithredu yn ystod y deuddeng mis nesaf. Mae'r eitemau canlynol wedi'u cynnwys ar gyfer 2017:

1. Eitemau y disgwylir iddynt gael eu cyfeirio at y Fforwm gan gyrrff eraill:

Awdurdod Lleol:

Rhagwelir y bydd yr eitemau canlynol yn cael eu trafod gyda Chyngor Sir Gaerfyrddin yn 2017:

- Teithio Llesol
- Prosiect Llwybr Beicio Dyffryn Tywi
- Adolygiad o'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy
- Cynllunio
- Rhaglen Waith Gwelliannau Grant
- Cyfathrebu gwell rhwng Adrannau'r Cyngor a'r Fforwm
- Strwythurau Staffio Adran Gyfreithiol a Chynnal a Chadw Cyngor Sir Gaerfyrddin o ran Mynediad i Gefn Gwlad
- Cytundeb Dirprwyo Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
- Diweddariadau cyson ynghylch y rhaglen gwelliannau grant a'r gwaith hawliau tramwy a wnaed gan yr Awdurdod.
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ym mhob cyfarfod gyda golwg ar faterion cynnal a chadw a materion cyfreithiol sydd heb eu datrys.

Llywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru

Rhagwelir y bydd yr eitemau canlynol yn cael eu cyfeirio i'r Fforwm gan Llywodraeth Cymru yn 2017:

- Proses Adolygu'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy

Disgwylia Cyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru gyfeirio'r materion canlynol at y Fforymau Mynediad Lleol yn ystod y flwyddyn. Canllaw yw hwn yn unig a gall newid i gyd-fynd â blaenoriaethau gwaith. **Ni ddylid ei ystyried yn rhestre derfynol.** Yn ogystal, bydd Awdurdodau Lleol ac Awdurdodau Parc Cenedlaethol yn cyfeirio materion at y Fforymau Mynediad Lleol. Hefyd dylai aelodau'r Fforymau Mynediad Lleol gael eu hannog i gyflwyno eitemau agenda.

- Ymgysylltu â sefydliadau eraill.
- Rhoi cyhoeddusrwydd i'r Fforwm a'i waith.
- Dylanwad - Monitro effaith cyngor ac argymhellion.

- Cynllun Gwaith ar gyfer y flwyddyn.
- Aelodaeth.
- Rôl a llywodraethu'r Fforwm.
- Edrych ar gymorth ar gyfer y Fforymau Mynediad Lleol.

2. Eitemau a Gynigwyd gan Aelodau'r Fforwm ac eraill:

Mae aelodau'r Fforwm wedi gwneud cais am i'r eitemau canlynol gael eu trafod yn 2017:

- Recriwtio aelodau eraill o'r cyhoedd / grwpiau nad ydynt yn cael eu cynrychioli ar y Fforwm gan gynnwys Cynrychiolydd Grŵp Defnyddwyr Anabl.
- Llwybr Cerdded Rheilffordd Calon Cymru
- Themâu Croeso Cymru
- Fferm Wynt Brechfa
- Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus - Cynnwys y Fforwm ynddynt
- Cyngor Sir Caerfyrddin - Defnyddio Gorchmynion Rheoli Traffig

Cyfarfodydd Arfaethedig 2017


Mae'r rhaglen arfaethedig ar gyfer cyfarfodydd 2017 fel a ganlyn:

- 16 Chwefror 2017 – Canolfan Hamdden Caerfyrddin
- 11 Mai 2017 – Canolfan Tywi Llandeilo
- 21 Medi 2017 – Canolfan Hamdden Caerfyrddin (I'w gadarnhau)
- 7 Rhagfyr 2017 – Canolfan Tywi Llandeilo (I'w gadarnhau)

Atodiadau

Atodiad 1
Adroddiadau ar Faterion Cynnal a Chadw a Materion Cyfreithiol sydd heb eu datrys


12/05/16



Fforwm Mynediad Lleol Sir Gaerfyrddin
Adroddiad Blynyddol 2016

Outstanding Legal Issues as at 12/05/16


Maint Type Description	Number of Issues
Legal	274
Obstacles	40
Cross path	29
Land use	20
Intimidating or Misleading	5
Alongside path	3
CAMS	2
Grand Total	373



20/09/16


Outstanding Maintenance Issues as at 20/09/16

Maint Type Description	Number of Issues
Cross path	280
Sign roadside	265
Gate	139
Stile	121
Bridge	109
Vegetation	108
Terrain	103
Sign not road	87
Survey	20
Other	14
Steps	9
Missing	9
Boardwalk	3
Alongside path	3
Litter	1
Grand Total	1271



Outstanding Legal Issues as at 20/09/16

Responsibility MaintStatus Desc = Legal or Unresolved	Legal (Multiple Items)
Maint Type Description	Number of Issues
Legal	288
Obstacles	38
Cross path	28
Land use	19
Intimidating or Misleading	5
Alongside path	3
Grand Total	381




13/01/17

Outstanding Maintenance Issues as at 13/01/2017

Responsibility	Maint
MaintStatus Desc = Legal or Unresolved	(Multiple Items)


Maint Type Description	Number of Issues
Cross path	287
Sign roadside	266
Gate	147
Stile	134
Bridge	114
Vegetation	108
Terrain	106
Sign not road	94
Survey	20
Other	15
Missing	10
Steps	7
Alongside path	4
Boardwalk	3
Grand Total	1315



Outstanding Legal Issues as at 13/01/2017

Responsibility	Legal
MaintStatus Desc = Legal or Unresolved	(Multiple Items)

Maint Type Description	Number of Issues
Legal	322
Obstacles	39
Cross path	27
Land use	18
Intimidating or Misleading	6
Alongside path	3
Grand Total	415



Atodiad 2 – Manylion yr Awdurdod Penodi

Enw'r Awdurdod Penodi: Cyngor Sir Gaerfyrddin


Ardal y mae'r Fforwm yn gyfrifol amdani: Sir Gaerfyrddin gyfan ac eithrio'r rhan honno sy'n rhan o Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

Ysgrifennydd: Caroline Ferguson, Rheolwr Dros Dro - Mynediad i Gefn Gwlad, Uned Cefn Gwlad, Hamdden a Mynediad, Cyngor Sir Gaerfyrddin, Parc Coetir y Mynydd Mawr, Heol Hirwaun Olau, y Tymbl, Sir Gaerfyrddin SA14 6HU.

Rhif Ffôn: 01554 742216 (est 2216)

E-bost: CFerguson@sirgar.gov.uk

Atodiad 3 – Map o Ardal y Fforwm Mynediad Lleol



Key

- Area Surrounded in Red = Carmarthenshire
- Area Surrounded in Yellow = Section of County in Brecon Beacons National Park (Not Covered by Carmarthenshire LAF)

Atodiad 4 - Manylion Aelodaeth / Recriwtio

Yn unol â Rheoliad 3 o Reoliadau Mynediad i Gefn Gwlad (Fforwm Mynediad Lleol) (Cymru) 2001, mae holl aelodau'r fforwm yn cael eu penodi am dair blynedd o ddyddiad y cyfarfod cyntaf o gylch tair blynedd y fforwm.

Yn y cyfarfod ar 26 Chwefror 2015, etholwyd Mark Hadley yn Gadeirydd ac etholwyd Karen Bunch yn Is-gadeirydd. Mae'r tabl canlynol yn cynnwys manylion bras am yr holl aelodau hyd at 31 Rhagfyr 2016.

Enw	Dyddiad y penodwyd i'r Fforwm	Dyddiad y daeth Aelodaeth y Fforwm i ben	Cefndir / Diddordebau yn fras
Mark Hadley (Cadeirydd)	26/02/15	Amh.	Twristiaeth, Cerdded, Mynediad i Gerbydau Modur

Fforwm Mynediad Lleol Sir Gaerfyrddin
Adroddiad Blynyddol 2016

Karen Burch (Is-gadeirydd)	26/02/15	Amh.	Mynediad i Geffylau, Twristiaeth
Jonathan Tudor (Ysgrifennydd)	26/02/15	25/05/16	Rheolwr Mynediad i Gefn Gwlad, Cyngor Sir Caerfyrddin
Caroline Ferguson (Ysgrifennydd Interim)	12/05/16	Amh.	Rheolwr Interim - Mynediad i Gefn Gwlad, Cyngor Sir Caerfyrddin
Alan Warner (Aelod a Benodwyd gan y Cyngor)	26/02/15	Amh.	Rheolwr Gweithrediadau Cefn Gwlad, Cyngor Sir Caerfyrddin
Edward Percy	26/02/15	Amh.	Mynediad i Gerbydau Modur
Caroline Evans	26/02/15	Amh.	Diogelu'r Dirwedd / Ecoleg, Twristiaeth, Mynediad Agored
Eric Jones	26/02/15	Amh.	Ffermio
Jillie Gardiner	26/02/15	Amh.	Mynediad i Geffylau, Twristiaeth
Chris Rankin	26/02/15	Amh.	Mynediad i Gerbydau / Marchogwyr, Perchennog Tir
Keith Morgan	26/02/15	Amh.	Cyngor Cymuned Lleol, Ffermio
Glyn Evans	26/02/15	Amh.	Ffermio
Eric Davies	26/02/15	Amh.	Ffermio
David Stacey	26/02/15	Amh.	Beicio, Rheoli Cefn Gwlad, Amgylchedd Amaethyddol
Becky Chunisingh	21/05/15	09/03/16	
Jane Evans	19/11/15	Amh.	Cymdeithas Ceffylau Prydain
Richard Leggett	19/11/15	Amh.	Cerddwyr Caerfyrddin
Geoffrey Williams	19/11/15	Amh.	Cerdded
John Cook	22/09/16	Amh.	Cerddwyr Llanelli
Gerald Brown	22/09/16	Amh.	Ffermio

Mynychodd Aelodau'r Fforwm gyfarfodydd canlynol y Fforwm yn 2016:

Enw	18/02/16	12/05/16	22/09/16	08/12/16 (19/01/16)
Mark Hadley (Cadeirydd)	Do	Do	Do	Do
Karen Burch (Is-gadeirydd)	Naddo	Do	Ymddiheuriadau	Do
Jonathan	Do	Amh.	Amh.	Amh.

Fforwm Mynediad Lleol Sir Gaerfyrddin
Adroddiad Blynnyddol 2016

Tudor (Ysgrifennydd)				
Caroline Ferguson (Ysgrifennydd Interim)	Do	Do	Do	Do
Alan Warner (Aelod a Benodwyd gan y Cyngor)	Ymddiheuriadau	Ymddiheuriadau	Do	Ymddiheuriadau
Edward Percy	Ymddiheuriadau	Do	Ymddiheuriadau	Ymddiheuriadau
Caroline Evans	Ymddiheuriadau	Ymddiheuriadau	Do	Do
Eric Jones	Naddo	Naddo	Naddo	Naddo
Jillie Gardiner	Do	Do	Do	Ymddiheuriadau
Chris Rankin	Do	Naddo	Do	Do
Keith Morgan	Ymddiheuriadau	Do	Do	Ymddiheuriadau
Glyn Evans	Do	Do	Do	Naddo
Eric Davies	Ymddiheuriadau	Ymddiheuriadau	Ymddiheuriadau	Naddo
David Stacey	Ymddiheuriadau	Do	Ymddiheuriadau	Ymddiheuriadau
Becky Chunisingh	Naddo	Wedi ymddiswyddo	Amh.	Amh.
Jane Evans	Do	Naddo	Do	Ymddiheuriadau
Richard Leggett	Do	Do	Ymddiheuriadau	Do
Geoffrey Williams	Do	Ymddiheuriadau	Do	Do
John Cook	Amh.	Amh.	Do	Naddo
Gerald Brown	Amh.	Amh.	Do	Do

Allwedd

Do Mynychwyd y cyfarfod
Ymddiheuriadau Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb
Naddo Ni fynychwyd y cyfarfod ac ni dderbyniwyd
ymddiheuriadau am absenoldeb
Amh Person heb fod yn aelod o'r Fforwm yn y cyfarfod hwn
Mae nifer o ymgynghorwyr / aelodau o'r cyhoedd wedi mynychu cyfarfodydd y
Fforwm / wedi ymddiheuro drwy gydol y flwyddyn fel y dangosir yn y tabl isod.

Enw	Sefydliad	Cyfarfodydd a fynychwyd
Jane Tibbott	Llywodraeth Cymru	
Phil Stone	Cyfoeth Naturiol Cymru	18/02/16
Y Cyngorydd Deryk Cundy	Cadeirydd Pwyllgor Craffu - Cymunedau Cyngor Sir Caerfyrddin	Ymddiheuriadau ar gyfer 18/02/16, Ymddiheuriadau ar gyfer 19/01/17
Nigel Powell	Cyngor Sir Caerfyrddin	18/02/16
Glyn Lloyd-Jones	Cyfoeth Naturiol Cymru	18/02/16, 19/01/17
Richard Jones	Swyddog Rheoli	12/05/16

Fforwm Mynediad Lleol Sir Gaerfyrddin
Adroddiad Blynnyddol 2016

	Datblygu Cyngor Sir Caerfyrddin	
Peter Stopp	Aelod o'r cyhoedd	12/05/16
Marie George	Cyfoeth Naturiol Cymru	Ymddiheuriadau ar gyfer 12/05/216, Ymddiheuriadau ar gyfer 22/09/16, Ymddiheuriadau ar gyfer 19/01/17
Lucy Pugh	Cynorthwydd Mynediad i Gefn Gwlad Cyngor Sir Caerfyrddin	22/09/16
Martin Kelly	Cyngor Sir Caerfyrddin	19/01/17
Bethan Edwards	Innogy (Fferm Wynt Brechfa)	19/01/17
Jason Lawday	Cynorthwydd Mynediad i Gefn Gwlad Cyngor Sir Caerfyrddin	19/01/17

Aelodau'r Fforwm - Cynrychiolaeth mewn Sefydliadau / Pwyllgorau Eraill

Enw	Sefydliadau / Pwyllgorau
Mark Hadley	Aelod o Gymdeithas y Lonydd Gwyrdd, Aelod o'r Trail Riders Fellowship, Grŵp Defnyddwyr Cilffyrdd Sir Gaerfyrddin, Aelod o Gymdeithas Twristiaeth Sir Gâr
Karen Burch	Aelod o Gymdeithas Ceffylau Prydain, Grŵp Defnyddwyr Cilffyrdd Sir Gaerfyrddin
Edward Percy	Aelod o Gymdeithas y Lonydd Gwyrdd,
Caroline Evans	Aelod o Gymdeithas Twristiaeth Sir Gâr
Eric Jones	
Jillie Gardiner	Aelod o Gymdeithas Twristiaeth Sir Gâr
Chris Rankin	Aelod o Gymdeithas Ceffylau Prydain
Keith Morgan	I'w gadarnhau
Glyn Evans	I'w gadarnhau
Eric Davies	I'w gadarnhau
David Stacey	I'w gadarnhau
Jane Evans	Aelod o Gymdeithas Ceffylau Prydain, Grŵp Defnyddwyr Cilffyrdd Sir Gaerfyrddin
Richard Leggett	Aelod o Gerddwyr Caerfyrddin
Geoffrey Williams	Aelod o Bwyllgor Ymddiriedolaeth Ffordd Cambria, Aelod o Bwyllgor Cymdeithas Teithwyr Rheilffordd Calon Cymru, Aelod o Gymdeithas y Cerddwyr
John Cook	Aelod o Gymdeithas y Cerddwyr
Gerald Brown	I'w gadarnhau

Atodiad 5

Rhestr Ddosbarthu Adroddiad Blynyddol y Fforwm Mynediad Lleol

Gwefan Cyngor Sir Caerfyrddin
Llyfrgelloedd Cyngor Sir Caerfyrddin
Canolfannau Gofal Cwsmeriaid Cyngor Sir Caerfyrddin
Cynghorau Cymuned
Aelodau Cyngor Sir Caerfyrddin
Prif Weithredwr a Chyfarwyddwyr Cyngor Sir Caerfyrddin
Cymdeithas Twristiaeth Sir Gâr
Cymdeithas y Cerddwyr Ceredigion
Cymdeithas y Cerddwyr Penfro
Cymdeithas y Cerddwyr Llanelli
Cymdeithas y Cerddwyr Dinefwr
Cymdeithas y Cerddwyr - Caerfyrddin a'r Cylch
Cymdeithas y Cerddwyr Llanbedr Pont Steffan
Marchogion Sir Gaerfyrddin
Cymdeithas Ceffylau Prydain
Cymdeithas y Lonydd Gwyrdd
Treadlightly
Trail Riders Fellowship
Welsh Trail Riders Association
Auto Cycle Union
British Motorcyclists Association
Sustrans Cymru
Cyfoeth Naturiol Cymru
Undeb Amaethwyr Cymru
Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr
Fforymau Mynediad Lleol Awdurdodau Cyfagos
Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
Cymdeithas Mannau Agored
Ymddiriedolaeth Cilffyrdd a Llwybrau Ceffylau
Cymdeithas Yrru Prydain
Clwb Teithiau i Feicwyr (Cyclists Touring Club)
LARA (Cymdeithas Hamdden a Mynediad i Dir)

Atodiad 6

Rhagor o Ddeunydd Darllen

Adroddiadau Blynyddol y Fforwm

Mae'n ofynnol yn ôl statud i bob awdurdod penodi lunio adroddiadau blynyddol. Gellir cael copi ohonynt gan Ysgrifennydd y Fforwm perthnasol. Mae agendâu, cofnodion a phapurau eraill ar gyfer cyfarfod unigol y Fforwm hefyd ar gael: <http://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/preswylwyr/hamdden-a-gweithgareddau/hawliau-tramwy-cyhoeddus/fforwm-mynediad-lleol/#.V2kLVdL2b1I>

Deddf y Llywodraeth

Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000; The Stationery Office Ltd (2000).

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Rheoliadau Mynediad i Gefn Gwlad (Fforymau Mynediad Lleol) (Cymru) 2001;
The Stationery Office Limited (2002).

Canllawiau ynghylch Hawliau Tramwy Cyhoeddus ar gyfer Awdurdodau Lleol (Hydref 2016)

Cyfoeth Naturiol Cymru

Cyfarwyddyd ar gyfer Fforwm Mynediad Lleol 1: Sefydlu Fforymau Mynediad Lleol – Cyngor a Chyfarwyddyd Arferion Da (2002).

Cyfarwyddyd ar gyfer Fforymau Mynediad Lleol 2: Swyddogaeth, Dyletswyddau a Phwrpas Fforymau Mynediad Lleol (2002)

Atodiad 7

Geirfa

Mae'r rhestr isod yn dangos y diffiniadau llawn ar gyfer yr acronymau a ddefnyddiwyd drwy gydol yr adroddiad blynyddol hwn:

Y Fforwm

Fforwm Mynediad Lleol Sir Gaerfyrddin

Fforwm Mynediad Lleol Sir Gaerfyrddin
Adroddiad Blynyddol 2016